**25-07-14(a)**

| | |
|---|---|
| **Enw'r pwyllgor:** | Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg |
| **Cadeirydd y pwyllgor:** | Karen Lewis |
| **Cyfnod adrodd:** | Cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Mehefin 2025 |
| | |
| **Penderfyniadau allweddol a materion a ystyriwyd gan y pwyllgor** | |

**Cyfarfod y pwyllgor 25 Mehefin 2025:**

Archwiliad Mewnol Rhoddodd Pennaeth Archwilio Mewnol drosolwg o 3 adroddiad archwilio mewnol a gwblhawyd, a gwblhaodd yr archwiliadau a gynlluniwyd ar gyfer cynllun archwilio mewnol 2024/2025. Llywodraethu Gwybodaeth (sicrwydd rhesymol), Rheoli Perfformiad (sicrwydd rhesymol) a Chyllid (sicrwydd sylweddol).

Ystyriodd y pwyllgor hefyd **Farn Pennaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2024/2025** – cadarnhawyd hyn fel sicrwydd rhesymol cyffredinol a byddai bellach yn cael ei adrodd yn y datganiad llywodraethu fel rhan o'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon.

Cymeradwyodd y pwyllgor hefyd y **Cynllun Archwilio Mewnol arfaethedig ar gyfer 2025/2026.** Roedd y cynllun wedi'i ddatblygu ar ôl ymgynghori â'r Tîm Gweithredol ac ymgynghori ymlaen llaw â'r pwyllgor. Bydd y cyntaf o'r 4 archwiliad ar gyfer y flwyddyn ar bartneriaethau allanol – darparwyr gwasanaethau a bydd yn dechrau ym mis Gorffennaf 2025.

**Traciwr archwilio:** Mae 30 o gamau gweithredu wedi'u cwblhau ar y traciwr yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac mae 8 yn weddill. Roedd y Tîm Gweithredol wedi gofyn am ystyried bod 3 cham gweithredu wedi'u disodli gan weithgarwch archwilio mwy diweddar (llywodraethu gwybodaeth a rheoli perfformiad). Cadarnhawyd gan archwiliad mewnol y byddai hyn yn briodol ac yn cael ei gefnogi gan y pwyllgor.

Roedd 5 argymhelliad yn parhau i fod heb eu gweithredu. Cadarnhawyd bod adnoddau wedi’u neilltuo i fwrw ymlaen â’r gwaith hwn. Cododd y pwyllgor bryderon ynghylch y camau gweithredu hwyr hyn ers tro byd, a gofynnodd am ddyddiadau targed diwygiedig, realistig, a fyddai’n cael eu pennu gan y Tîm Gweithredol. Byddai

adroddiad naratif yn cael ei ychwanegu at adroddiadau yn y dyfodol i amlinellu ymhellach y gweithgaredd adferol arfaethedig.

**Archwilio Cymru:** Derbyniodd a chymeradwyodd y pwyllgor gynllun archwilio Archwilio Cymru ar gyfer 2025/2026, a oedd yn canolbwyntio ar y prosesau o amgylch y gwaith adroddiad blynyddol a chyfrifon ar gyfer y flwyddyn i ddod.

**Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024/2025:** Amlinellwyd y gwaith parhaus ar gynhyrchu'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon. Mae'r pwyllgor wedi cyfarfod yn anffurfiol ar 4 Mehefin i roi adborth cychwynnol, a darparwyd adborth pellach yn y cyfarfod. Roedd y ddogfennaeth yn cael ei chwblhau gyda'r cyfrifon drafft i'w cyflwyno i Archwilio Cymru ar 7 Gorffennaf a'r adroddiad blynyddol drafft ar 14 Gorffennaf.

Byddai'r ddogfennaeth nawr yn mynd i mewn i'r broses archwilio gyda'r allbynnau disgwyliedig yn ddiweddarach yn yr haf gydag ystyriaeth derfynol gan y pwyllgor a chymeradwyaeth y Bwrdd yn yr hydref.

**Adroddiad risg:** Cyflwynwyd adroddiad risg naratif arddull newydd i'r pwyllgor. Croesawyd yr arddull newydd gan aelodau'r pwyllgor a amlygodd hygyrchedd gwell i'r fformat naratif. Cadarnhaodd Ysgrifennydd y Bwrdd y byddai adroddiadau yn y dyfodol yn cyfuno fformatau naratif a dangosfwrdd ac yn cynnwys ystyriaethau archwaeth risg.

**Adroddiad Cyllid:** Clywodd y pwyllgor fod cadarnhad yn dal i gael ei ddisgwyl ar lythyr dyrannu cyllideb 2025/26 gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, roedd timau'n llunio cyllidebau yn seiliedig ar raglenni gwaith y cytunwyd arnynt i wella perchnogaeth a hyblygrwydd. Mae prosesau monitro cyllideb fewnol wedi'u symleiddio. Roedd dangosfyrddau hefyd yn cael eu datblygu.

Mae'r cynllun ariannol tymor canolig yn cael ei ddatblygu, gan ystyried pwysau costau a senarios yn y dyfodol gyda'r gronfa wrth gefn wedi'i haddasu o £276,000 i £46,000 yn dilyn ail-aliniadau cyllideb ddiweddar. Hefyd, cynlluniwyd adolygiad o lefelau wrth gefn derbyniol gan y Cyfarwyddwr Strategol Gweithrediadau a Gwasanaethau Corfforaethol.

**Adroddiadau arferol:** Fel rhan o'i raglen o adrodd rheolaidd, derbyniodd y pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith a wnaed ar ddatganiadau o ddiddordeb ac adrodd ar roddion a lletygarwch a nododd well adrodd a sylw ar draws y sefydliad.

Derbyniwyd adroddiad ar gwynion ac adborth hefyd. Ni dderbyniwyd unrhyw gwynion ffurfiol am Llais, ond derbyniwyd amrywiaeth o adborth cadarnhaol ac adeiladol o bob cwr o Gymru.

**Adroddiad effeithiolrwydd y pwyllgor a rhaglen waith:** Cyflwynwyd allbynnau sesiwn adolygu effeithiolrwydd y pwyllgor ar 7fed Mai. Cytunodd yr aelodau ar y crynodeb a'r cynllun datblygu ar gyfer y flwyddyn nesaf. Mae Ysgrifennydd y Bwrdd yn ymgorffori'r camau gweithredu hyn yn rhaglen waith ffurfiol y pwyllgor a byddant yn eu dosbarthu i'w cymeradwyo'n derfynol yng nghyfarfod mis Medi 2025.

**Materion sydd angen cymeradwyaeth neu ystyriaeth ar lefel y Bwrdd**

- Dim angen

**Risgiau a materion allweddol/Materion sy'n peri pryder**

- Mae'r pwyllgor wedi bod yn ymwneud yn weithredol â'r gwaith datblygu cyffredinol sy'n cael ei wneud ar fframwaith risg Llais. Mae gwaith pellach yn parhau ar adrodd ar risg, fel yr amlinellwyd uchod.
- Cynhelir sesiwn sicrhau risg ychwanegol gyntaf y pwyllgor ddechrau mis Awst 2025 ar y maes risg allweddol sef asedau seiber, digidol a TG/gwybodaeth. Roedd y sesiwn hon wedi'i chynllunio'n wreiddiol ar gyfer diwedd mis Mehefin ond bu'n rhaid ei hail-drefnu.

**Busnes y pwyllgor wedi'i gynllunio ar gyfer y cyfnod adrodd nesaf**

- Bydd y pwyllgor yn parhau i ganolbwyntio ar ei raglen waith arfaethedig gan gynnwys derbyn yr adroddiad archwilio mewnol cyntaf o raglen 2025/2026, a diweddariadau ar gyllid a rheoli risg. Yn y cyfarfod nesaf, bydd y pwyllgor hefyd yn derbyn adroddiadau ar gydymffurfiaeth â’r Iaith Gymraeg a cheisiadau am wybodaeth.

- Bydd y cyfarfod ychwanegol ddiwedd mis Medi 2025 yn derbyn allbynnau archwiliad yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon drafft gan Archwilio Cymru. Gwneir argymhelliad hefyd i'r Bwrdd ar gyfer mabwysiadu'r dogfennau datgelu cyhoeddus hyn.

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfodydd nesaf:** | Dydd Gwener 1 Awst 2025 – Sesiwn sicrwydd risg ychwanegol ar seiber, digidol a TG.<br><br>Dydd Mercher 10 Medi 2025 – cyfarfod pwyllgor arferol.<br><br>Dydd Mercher 30 Medi 2025 – cyfarfod pwyllgor ychwanegol i ystyried yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon drafft terfynol. |